

DAFYDD NANMOR, bardd o fri yn y 15fed ganrif

Enw: Dafydd Nanmor
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Ifor Williams

Cafodd ei enw o Nanmor ger Beddgelert, sef Nanmor Deudraeth. Canodd gywyddau yn null **Dafydd ap Gwilym** i wraig briod, Gwen o'r Ddôl (Dolfrïog), yn yr ardal, ac o'u hachos deolwyd ef o Wynedd trwy ddedfryd deuddeg o reithwyr. Digwyddodd hyn, meddai ef, pan oedd **Dafydd ab Ifan ab Einion** yn Ffrainc, sef y gŵr a enillodd glod wedyn fel cwnstabl castell Harlech, am wrthsefyll yn ddygn ymosodiad **Herbert** a phlaid lorc arno yn 1468. Gan i'r brwydro yn Ffrainc ddarford yn 1453, deil **T. Roberts** fod yn rhaid amseru ymadawiad Dafydd o Wynedd cyn y flwyddyn honno, a chyfrif gywyddau Gwen fel ei gyfansoddiadau cynharaf (*The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, xvii-xix). Cafodd nawdd yn y De, yn llysoedd Rhys ap Meredith o'r Tywyn (ger aber afon Teifi), ei feibion, a'i geraint. Nodir y Tŷgwyn-ar-Daf fel y man lle'i claddwyd. Ar amcan, cynnig ei olygydd iddo fyw o tua 1410 hyd 1480; pleidiodd deulu Lancastr ar hyd ei fywyd, ond ni cheir cywydd ganddo i ddathlu buddugoliaeth **Harri Tudur** yn 1485, a chasglodd **Roberts** o'r herwydd na chafodd fyw i weld goruchafiaeth derfynol ei blaid. Erbyn hyn cyhoeddwyd cryn dipyn o weithiau cyfoeswyr Dafydd, a daw gorfod arnom o'i ailystyried yr amseroedd a'r prydiau, fel yr amlha'r defnydd. Efallai y dylid diweddarau ychydig ar y ffigurau, a chynnig 1420 hyd 1485 neu 1490.

Heblaw mawl gorchestol i haelioni Rhys o'r Tywyn, mewn cywydd ac awdl, a hefyd i'w feibion, bu Dafydd yn glodforwr ffyddlon ar **Edmwnt** a **Siasbar Tudur**, a chanodd gywydd i **Harri Tudur**, ac awdl hefyd, pan nad oedd ond plentyn. Am ystyr ei awdl 'enghreifftiol' gweler *Cerdd Dafod Syr John Morris-Jones*, 363-4, 379-82. Bu Dafydd Nanmor, **Dafydd ab Edmwnt**, **Ieuan Deulwyn**, **Deio ab Ieuan Du**, a **Thudur Penllyn**, farw yn ymyl ei gilydd, a golyga hyn gryn drafferth, a gwahaniaeth barn rhwng golygyddion a'i gilydd - ac â hwy eu hunain ar adegau! Anodd dewis bliwyddyn hwylus i gladdu'r cwbl ynghyd. Ar hyn o bryd ymddengys bod y dewis rhwng tua 1485 a thua 1490; a chofier bod pwyslais ar y 'tua.'

Hoff oedd Dafydd o 'orchestion,' neu gwestiynau anodd, a charai gynganeddu seryddiaeth, serddewiniaeth, ac arwyddion tywydd; a gwneud campau ar fesurau cerdd dafod, a gramadeg. Dyfynna bedair llinell o fesur Lladin ar Wyl Bawl Abostol, a thry hwy'n bedwar englyn. Diddorol yw'r darganfyddiad o'i enw yn ei law ei hun ar lawysgrif Ladin o **Gerallt Gymro**, sydd yn awr yn y Llyfrgell Genedlaethol (**NLW MS 3024C**); gweler *Cylchgrawn Ll.G.C.*, ii, 11 a'r llun gyferbyn. Ar t. 130, ceir, mewn llythrennau addurnedig, 'Gwenn o dol.' Anodd peidio â dyfynnu o'i 'Gyffes' (t. 78): 'Ni thorraris vn llythreynn/O bin ag ingk heb ennw Gwen.' Dynwaredodd yn Gymraeg un o groeseiriau Lladin y cynoesoedd ('Sator arepo tenet opera rotas'). Mae 'Compod Manuel' hefyd yn **Peniarth MS 52**, yn ei law ef ei hun (gweler **Peniarth MS 75** (229); *R.W.M.* i, 403, 503, 783).

Awdur

Syr Ifor Williams, (1881 - 1965)

Ffynonellau

Thomas Roberts ac Ifor Williams (goln), *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Caerdydd 1923)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Dafydd Nanmor**

Sain a Ffilm

Dafydd Johnston, *Eglwys Abaty Ystrad Fflur, Cerdd o'r Oesoedd Canol gan Dafydd Nanmor*

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q5208385**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Erannu

Arddull APA

x

Williams, I., (1953). DAFYDD NANMOR, bardd o fri yn y 15fed ganrif. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAFY-NAN-1400>

Erannu

Preifatwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd ym
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government